

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2021
1 MAWRTH 2021 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Nia Povey, Richard Jones, Elin Jones, Dafydd Watts, Dion Roberts

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb

Datganodd y Cyngorydd Dion Roberts ddiddordeb yn eitem 8, cais cynllunio 10 Garreg Frech gan ei fod yn byw yn agos iawn i'r eiddo dan sylw.

3. Ymddiheuriadau

Llio Griffiths, Glyn Griffiths

4. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 1 Chwefror 2021

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Elin Jones

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Garreg Frech

Derbyniwyd adroddiad anghenion tai diwygiedig gan Cynefin. Roedd rhai cywiriadau yn parhau heb eu gwneud, e.e. Garreg a Rhyd, a bod yna 2 siop yn Llanfrothen.

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn dweud fod yna angen am 26 tŷ gwag yn Llanfrothen ond doedd dim eglurhad yn dangos sut yr oedd hyn wedi ei gyfrifo.

Mae Cynefin hefyd wedi gofyn a fyddai'r cyngor cymuned yn fodlon ystyried anghenion tai Penrhyndeudraeth ar y cyd efo'r angen yn Llanfrothen.

Cytunwyd fod anghenion Penrhyndeudraeth yn wahanol i rai Llanfrothen, a bod angen gweld adroddiad anghenion tai Penrhyndeudraeth cyn gwneud penderfyniad ar y mater.

Doedd hi ddim yn glir chwaith os gofyn oedd Cynefin ddylai anghenion tai Penrhyndeudraeth gael eu hystyried yn Llanfrothen, neu anghenion tai Llanfrothen gael eu hystyried ym Mhenrhyndeudraeth.

Mae adroddiad Llanfrothen hefyd yn dweud nad oedd angen cryf am dai yn Llanfrothen, ond does dim eglurhad ar beth yn union mae hyn yn ei olygu, ac am nifer penodol y tai yr oedd angen arnynt.

5.2 13 Garreg Frech

Nid oedd y Cynghorydd Glyn Griffiths yn bresennol ac felly parheir i ddisgwyl gweld os oedd wedi llwyddo i gael aelod o'r cyhoedd i fwrw ymlaen efo cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

5.3 Y Ganolfan

Mae adran eiddo Cyngor Gwynedd wedi gwneud arolwg o'r Ganolfan. Disgwylir yr adroddiad erbyn cyfarfod mis Ebrill.

Mae Snowdonia Fire Protection wedi cynnal arolwg diogelwch o'r offer tân, a byddant yn gyrru pris am y gwaith, ond mae'n debyg y bydd hi'n costio £100-150 i wneud y gwaith. Mae'n bosibl y bydd rhywun lleol yn gwneud y gwaith yn rhatach.

Yn ogystal, mae piben sgrap yn rhydd y tu allan i'r adeilad ac angen ei thynnu.

Cytunwyd fod angen sicrhau fod Y Ganolfan yn barod ar gyfer etholiadau Mai 2021.

Ysgrifennodd y Clerc at adran drethi Cyngor Gwynedd unwaith eto, o ran atebolrwydd presennol a gorffennol y cyngor cymuned i dalu treth fusnes am Y Ganolfan, ond parheir i ddisgwyl ymateb.

5.4 Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn trafod trefniadau gwerthuso'r Clerc yn yr wythnos i ddod.

Trafodwyd cyflog y Clerc a'r angen posibl am dâl ychwanegol oherwydd bod cyfarfodydd yn ddiweddar wedi bod bob mis yn hytrach na bob dau fis.

Gadawodd y Clerc y cyfarfod pan gafodd y materion yma eu trafod.

5.5 Ynni Hydro Croesor

Cafwyd ymateb gan Balfours am ddyrannu buddiant cymunedol gan Ynni Hydro Croesor, yn dweud mai newydd ddechrau cynhyrchu trydan oedd gwaith Hydro Croesor.

Awgrymwyd fod yn rhaid bod gan Ynni Hydro Croesor syniad eithaf da faint fyddai'r prosiect yn ei gostio a faint o elw a ddisgwyliid. Fel arfer cynigir canran o'r elw, felly os gwneir colled fyddai dim buddiant cymunedol tan fod elw yn cael ei wneud.

Cytunwyd fod angen cytuno ar egwyddorion craidd dosbarthu unrhyw fuddiant cymunedol, a bod angen ymateb mwy cadarnhaol gan Ymddiriedolwyr Brondanw.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Ymddiriedolwyr Brondanw yn gofyn am drafodaethau pellach, a chopi o'r cynllun busnes os nad oedd eu hymateb yn dderbyniol. O ystyried y gefnogaeth gymunedol a roddwyd i'r cynllun, cytunwyd y dylid ystyried gwneud cwyn i'r Comisiwn Etholiadol os nad oedd ymateb mwy positif.

5.6 Croesffordd Wern

Mae peiriant wedi ei ddefnyddio gan y perchennog tir er mwyn agor y ffos, ond mae angen sicrhau fod Cyngor Gwynedd wedi agor y cylfyr sy'n mynd o dan y ffordd.

5.7 Rhestr Asedau

Mae'r rhestr asedau wedi ei ddiweddarau efo cost prynu a dyddiad prynu a lleoliad yr asedau yn unol ag argymhelliad yr archwiliwr allanol.

Cymeradwywyd y Rhestr Asedau.

5.8 Tir yn Llanfrothen

Penderfynwyd gohirio trafodaeth ar y mater yma tan y cyfarfod nesaf, gan fod y Cynghorydd Glyn Griffiths wedi cytuno i ystyried pa fath o gytundeb fyddai'n addas.

5.9 Cymeradwyo Asesiad Risg 2020/21

Cymeradwywyd yr Asesiad Risg ar y sail fod angen adolygu sut mae dogfennaeth electronig yn cael eu cadw.

Cynnig: Dafydd Watts

Eilio: Dion Rhys

5.10 Llwybr Cerdded a Beicio Llanfrothen i Benrhyn

Mae Cyngor Tref Penrhyndeudraeth wedi dangos diddordeb i gydweithio ar lwybr cerdded a beicio o Lanfrothen i Benrhyndeudraeth.

Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod rhithiol yn fuan er mwyn trafod ymhellach.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Chwefror 2021 - £214.40

TWE £53.40

6.2 Archwilio Cymru Archwiliad Allanol 2018/19 £393.80

6.3 Archwilio Cymru Archwiliad Allanol 2019/20 £333.49

6.4 Anfonebau Cymru 1 Gwefan –

Anfoneb 8305 01/07/2019 – 01/07/2020 £334.80

Anfoneb 8306 01/07/2020 – 01/07/2021 £334.80

6.5 Derbyn Tâl Claddedigaeth Pritchard a Griffiths 29/01/21 £1,190.00

6.6 Balans yn y banc 23 Chwefror 2021 £29,842.45

7. Gohebiaeth

7.1 Dim

8. Cynllunio

Gorwel, 10 Garreg Frech, Llanfrothen – Tynnu'r cwt a ports presennol ac adeiladu estyniad unllawr yn y cefn.

Dim gwrthwynebiad.

9. Materion Eraill

9.1 Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol Drafft Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Mae'r ymgynghoriad yma'n cau ar 26 Mawrth 2020, ond gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Barc Cenedlaethol Eryri fyddai'n bosibl ymestyn y cyfnod

ymateb ychydig, fel y gallasid cynnig unrhyw sylwadau yn syth ar ôl y cyfarfod nesaf ar 29 Mawrth 2021

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – 29 Mawrth 2021
am 7:30 yr hwyr.**